



Adroddiad ar adolygiad ymarfer: Vanessa George

Bwriad yr astudiaethau achos hyn yw tynnu sylw at broblemau'n mewn gweithredu ymarferol; gan ddwyn ynghyd y ffactorau allweddol, yn enwedig mewn perthynas â gwaith aml-asiantaethol. Byddant yn helpu i roi ffactorau risg yn eu cyd-destun a gofyn cwestiynau ynghylch dulliau atal mewn sefyllfaedd lle mae camdriniaeth, esgeulustod a niwed yn digwydd. Maent wedi'u crynhoi i helpu gyda'r broses hon, ond mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiadau ar yr adolygiadau.

Cyd-destun a chefnidir yr adolygiad

Cyhoeddwyd adolygiad achos difrifol i gam-drin plant gan Vanessa George ym meithrinfa Little Ted, a arweiniodd at ei heuogfarnu, a rhai pedwar arall. Cyhuddwyd Vanessa George, mam i ddau, o saith trosedd, gan gynnwys dau ymosodiad rhywiol drwy dreiddio a dau ymosodiad rhywiol drwy gyffwrdd. Fe'i cyhuddwyd hefyd o greu, meddu ar a dosbarthu lluniau anwedus o blant.

Arestwyd Mrs George, 39 oed, ar ôl i ddelweddau anwedus o blant a dynwyd ym Meithrinfa Little Ted yn Plymouth gael eu canfod ar ddisg cyfrifiadu a gymerwyd gan yr heddlu oedd yn eiddo i'r paedofilydd honedig Colin Blanchard ym Manceinion. Dywedodd yr heddlu bod y lluniau'n cynnwys lluniau o dorsoau plant a gymerwyd ar ffôn camera yn y feithrinfa, lle bu Mrs George yn gweithio am ddwy flynedd.

Amgylchiadau'r unigolyn a'r heriau a oedd yn ei hwynebu

Dechreuodd Vanessa George dreulio amser ar ei phen ei hun gyda phlant yn Little Ted, weithiau wrth newid eu cewynnau. Bu'n eu cam-drin yn rhywiol a defnyddio ei chamera ar ei ffôn symudol i recordio'r cam-drin. Defnyddiodd wrthrychau oedd yn y feithrinfa yn yr ymosodiadau, ond hefyd aeth â thegan rhyw yno i gyflawni o leiaf un ymosodiad.

Mae rhieni rhai dioddefwyr yn ddig bod George wedi gallu cael mynediad un i un gyda phlant. Mae rhai'n cyhuddo'r feithrinfa o reoli gwael ac yn honni bod y gyfundrefn yn rhy llac gan fod y gweithwyr yn ffrindiau da.

Roedd pryder ar un adeg y gallai mwy na 300 o blant fod wedi cael eu cam-drin. Mae'r heddlu wedi gostwng y nifer hwn i 30 ac mae wedi cyfaddef ei bod wedi creu 124 delwedd o blant rhwng mis Rhagfyr a mis Mehefin. Roedd yn targedu plant iau, efallai gan ei bod yn gwybod na fyddent yn gallu dweud wrth neb. Ni ddangoswyd eu hwynebau, sy'n golygu ei bod yn amhosibl gwybod pwy ydynt.

Byddai George yn anfon y delweddau ymlaen at Blanchard. Mae ditectifs profiadol yn cyfaddef eu bod wedi teimlo'n gorfforol sâl o weld y cynnwys. Byddai'r ddau yn cyfnewid delweddau rhywiol o'u hunain hefyd ac yn rhannu ffantasiau afiach, tywyll a graffig. Cynyddodd y cyfathrebu'n gyson a rhwng mis Rhagfyr 2008 a'i harestio ym mis Mehefin roedd negeseuon di-rif – 10,000 achos o gysylltu â'i gilydd ar y ffôn, testun, e-bost, MSN.

Beth ddigwyddodd?

Yn fam briod i ddau o blant, roedd yn ymddangos yn aelod gwerthfawr o'i chymuned leol ac wedi dechrau gweithio ym meithrinfa Little Ted dair blynedd ynghynt. Rywbryd yn ystod 2008, dechreuodd Vanessa George berthynas ar-lein gyda Colin Blanchard (a oedd wedi'i euogfarnu yn y gorffennol am feddu ar ddelweddau anwedus o blant). Dyna pryd y byddai ei chydweithwyr yn honni'n ddiweddarach y gwnaethant sylwi ar newid yn ei hymddygiad. Byddai Vanessa George yn anfon lluniau o'i hun yn cam-drin plant yn y feithrinfa at Colin Blanchard a byddai ef yn eu hanfon ymlaen at fenyw arall yr oedd mewn perthynas ar-lein gyda hi, Angela Allen.



Pam y digwyddodd?

Roedd y feithrinfa yn gymdeithas ddielw anghorfforedig gyda phwyllgor o ymddiriedolwyr yn berchnogion arni. Fodd bynnag, nid oedd yr ymddiriedolwyr a gyfwelwyd yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Gwadodd y rheolwr honiad Ofsted ei bod yn ymddiriedolwr, tra y cafwyd ar ddeall bod ymddiriedolwr arall wedi marw.

Ni chynhaliwyd cyfarfodydd ymddiriedolwyr ac nid oedd cyfansoddiad priodol nac unrhyw oruchwylio o ymarfer y rheolwr. Roedd rhieni'n credu mai'r rheolwr oedd yn berchen ar y feithrinfa ac, fel llawer o staff, nid oeddynt yn ymwybodol o'r ymddiriedolwyr ac nid oeddynt yn siŵr gyda phwy y dylent gysylltu ynghylch pryderon neu gwynion.

Roedd y feithrinfa'n gweithredu'n gyson y tu allan i gymarebau staff: plant ac nid oedd system gweithwyr allweddol ar waith. Defnyddiwyd staff mewn ffordd ddi-drefn yn y feithrinfa, gan symud rhwng adrannau, yn ôl yr angen. Er bod yr adolygiad yn nodi bod plant yn "hapus" ar y cyfan, roedd sawl aelod o staff yn dadlau nad felly'r oedd pethau. Ers cau'r feithrinfa ac i rieni ymrestru eu plant gyda gwahanol ddarparwyr, maent wedi gwneud sylwadau ar ansawdd gofal plant o safon uchel.

Nid oedd polisi recriwtio a dethol staff clir ac nid oedd y rheolwr wedi mynychu hyfforddiant recriwtio mwy diogel. Roedd George wedi'i recriwtio ar ôl cael ei hargymell 'ar lafar' drwy'r ysgol gynradd, lle'r oedd y rheolwr yn ei hadnabod yn rhinwedd ei rôl fel llywodraethwr ysgol. Nid oes unrhyw gofnodion o hysbyseb, cyfweliad ffurfiol neu geirdaon ar gyfer swydd George, er ei bod wedi clirio archwiliad y Swyddfa Cofnodion Troseddol wedi'i wneud.

Cyfrannodd y diffyg tryloywder hwn wrth ddarparu gwasanaeth atebol at amgylchedd lle gallai Vanessa George weithredu heb gael ei herio.

Nid oedd y staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu neu roeddynt wedi mynychu hyfforddiant amser maith yn ôl. Nid oedd unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod yr hyfforddiant hwn wedi'i integreiddio i ymarfer mewn ffordd ystyrllon. Er enghraifft, nid oedd yn ymddangos bod staff yn cydnabod y gallai ymarferwyr proffesiynol, gan gynnwys menywod (Vanessa George, yn yr achos hwn), fod yn risg i blant. Ni nodwyd ymddygiad ac agwedd rhywiol George yn y feithrinfa fel 'arwydd' clir bod posibilrwydd bod rheibiwr rhywiol yn eu plith.

Nid oedd fframwaith goruchwylio ar waith yn y feithrinfa ac fel y nodwyd eisoes, roedd gan y rheolwr gwan ffiniau proffesiynol aneglur ac roedd yn wrthwynebu i gysylltiad ag asiantaethau allanol ac yn gwneud 'digon a dim mwy' i sicrhau nad oedd Ofsted yn craffu gormod ar y feithrinfa.



Argymhellion yr adroddiad

Daeth yr adolygiad achos difrifol i'r hyn a ddigwyddodd ym Meithrinfa Little Ted i'r casgliad ei bod wedi "darparu amgylchedd delfrydol" i George gam-drin. Daeth yr adolygiad i'r casgliad bod cyfuniad o reoli gwan, hyfforddiant gwael a diffyg craffu allanol wedi "darparu amgylchedd delfrydol lle gallai George gam-drin". Er iddo ddweud na allai unrhyw un fod wedi rhagweld y byddai George yn risg i blant, methodd ei chydweithwyr â rhybuddio neb pan ddaeth ei hymddygiad a'i sgysiau yn fwyfwy rhywiol.

Dangosodd yr adolygiad wahaniaeth amlwg rhwng barn Ofsted am y feithrinfa a'r Gwasanaeth Cynghori Blynyddoedd Cynnar. Mae hyn yn codi cwestiynau pwysig am allu arolygwr Ofsted i arfarnu safonau mewn un ymweliad, bob tair blynedd. Croesewir yr argymhelliad i "sefydlu llwybr cyfathrebu rhwng Gwasanaethau Cynghori Blynyddoedd Cynnar ym mhob awdurdod lleol ac Ofsted er mwyn sicrhau bod deallusrwydd lleol yn llywio'r broses arolygu".

Dyfyniad Plymouth Safeguarding Children Board (2010) *Serious case review overview report executive summary in respect of Nursery Z*. Plymouth: Plymouth Safeguarding Children Board.